**Aelod Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Member for Education**
Cynghorydd/Councillor Gareth Thomas

Gofynnwch am/Ask for: **Gareth Thomas**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref:
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
Cynghorydd.GarethThomas@gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Annwyl Eluned Morgan AC,

**Parthed: Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd**

Mae Cyngor Gwynedd yn gorff sydd wedi cymryd ei ddyletswydd o hyrwyddo'r Gymraeg o ddifrif ers tro byd, a thrwy ei weinyddiaeth fewnol y mae'n galluogi holl staff y Cyngor i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwbl naturiol, gan feithrin sgiliau llafar, darllen a deall, ac ysgrifennu yn yr iaith yn ddyddiol.

At hyn, drwy gyfrwng ei bolisi iaith, y mae'r Cyngor hefyd yn ymrwymedig i hyrwyddo'r Gymraeg y tu hwnt i'r Cyngor; gyda phartneriaid ac yn gymunedol. Yn sgil yr ymrwymiad hwn, a chadernid y Gymraeg yn nifer o gymunedau'r sir, y Cyngor hefyd yw corff arweiniol hunan**iaith**, sef yr hyn a adwaenir fel y Fenter Iaith yng Ngwynedd.

At hyn, y Cyngor mewn partneriaeth gyda hunan**iaith**, fu'n gyfrifol am ddatblygu'r Siarter Iaith ar gyfer ysgolion cynradd y sir, er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, ers lansio'r Siarter Iaith yng Ngwynedd ym mis Mehefin 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd diddordeb mawr yn y gwaith arloesol a oedd yn mynd rhagddo yma, a'r effaith cadarnhaol yr oedd y Siarter yn ei gael ar ddefnydd plant o'r Gymraeg. Yn sgil hynny, bellach, mae'r Siarter Iaith wedi ei ledaenu'n rhanbarthol a chenedlaethol, ac fe'i cyllidir bellach gan Lywodraeth Cymru drwy'r pedwar consortia addysg.

Mae Gwynedd nawr yn edrych ar y sector uwchradd, er mwyn sicrhau dilyniant priodol i lwyddiannau'r Siarter yn y cynradd. Ar 26 Hydref 2017, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd fabwysiadu Strategaeth Iaith Uwchradd ar gyfer y sir, ac amgaeaf gopi o'r ddogfen er eich sylw. Y mae'r Cyngor hefyd wedi creu swydd Cydlynydd fel adnodd i gefnogi a herio ein hysgolion uwchradd i gyflawni'r nod. Yr her, mewn cyfnod o gyni ariannol di-gynsail i Awdurdodau Lleol yw sicrhau cefnogaeth ariannol i barhad y Cydlynydd fel adnodd allweddol i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen.

Hoffwn felly, ar sail llwyddiant Gwynedd gyda'r Siarter Iaith yn yr ysgolion cynradd, i Lywodraeth Cymru ystyried rhoi cefnogaeth ariannol i alluogi Gwynedd i arloesi unwaith yn rhagor yn y maes o gefnogi defnydd pobl ifanc o'r Gymraeg yn ein hysgolion uwchradd. Byddai'r gefnogaeth ariannol o £120,000, yn ein galluogi i gyflogi Cydlynydd ar gyfer y Strategaeth Iaith Uwchradd am gyfnod o dair blynedd. Ystyrir y cyfnod hwn yn rhesymol o safbwynt treialu, arloesi a phrofi gwerth y buddsoddiad ar ddefnydd pobl ifanc o'r Gymraeg o fewn y cwricwlwm ac yn gymdeithasol. Yn dilyn hynny, byddai Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa gref i ystyried pa mor briodol fyddai hi i ledaenu'r cynllun hwn ar gyfer y sector uwchradd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Y mae ymdrechion Gwynedd i gefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg hefyd wrth gwrs yn cefnogi ac yn cyfrannu tuag at weledigaeth y Llywodraeth fel yr amlinellir yn *Cymraeg 2050*. At hyn, mae'r amrywiaeth a geir yn sefyllfa'r Gymraeg o fewn Gwynedd yn adlewyrchu'r ystod amrywiaeth a

geir mewn cymunedau mor amrywiol a Llanrug ac Aberdyfi, yn golygu fod Gwynedd mewn lle da i dreialu ac arloesi ym maes cynllunio ieithyddol. Os hoffech wybod mwy am yr hyn a gyflawnir yng Ngwynedd i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, byddwn yn barod iawn i'ch croesawu chi yma, ac i'ch tywys o gwmpas rhai o'n hysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn i chi weld y cynlluniau ar waith.

Yn y cyfamser, hyderaf y byddwch yn rhoddi ystyriaeth briodol i'n cais am gefnogaeth ariannol i wireddu ein gweledigaeth gytûn o bobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Edrychwn ymlaen i glywed gennych.

Yn gywir,

Gareth Thomas
Aelod Cabinet dros Addysg